# ATODLEN 2

## Y BERTHYNAS RHWNG YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL A SAC

### RHAN 3

### PERSON ARALL, DROS DRO, YN ARFER SWYDDOGAETHAU'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL

5 Caiff SAC, gyda chytundeb y Cynulliad Cenedlaethol, ddynodi person i arfer swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol dros dro yn lle'r Archwilydd Cyffredinol ("dynodiad dros dro").

6 Ni chaniateir gwneud dynodiad dros dro ond o dan yr amgylchiadau a ganlyn—

(a) bod swydd yr Archwilydd Cyffredinol yn wag,

(b) nad yw'r Archwilydd Cyffredinol yn fodlon cyflawni swyddogaethau'r swydd,

(c) bod SAC a'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried bod yr Archwilydd Cyffredinol yn methu â chyflawni swyddogaethau'r swydd, neu

(d) bod SAC a'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried bod seiliau i ddiswyddo'r Archwilydd Cyffredinol oherwydd camymddygiad.

7 Mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol y cyfeirir atynt ym mharagraff 5 yn cynnwys y canlynol (ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt)—

(a) swyddogaethau fel prif weithredwr SAC (gweler adran 16);

(b) os yn berthnasol, swyddogaethau fel swyddog cyfrifyddu SAC (gweler paragraff 33(1) o Ran 8 o Atodlen 1);

(c) y pŵer i ddirprwyo o dan adran 18.

8 Rhaid i berson sydd wedi ei ddynodi i arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol fod yn gyflogai i SAC.

9 Bydd person sydd wedi ei ddynodi i arfer y swyddogaethau hynny yn parhau'n gyflogedig gan SAC ar yr un telerau.

10 Ond bydd y person hwnnw yn cael ei ddynodi i arfer swyddogaethau ar y telerau ychwanegol hynny (gan gynnwys telerau talu cydnabyddiaeth) y cytunir arnynt gan SAC a'r Cynulliad Cenedlaethol.

11 Caiff telerau talu cydnabyddiaeth—

(a) darparu ar gyfer lwfansau, arian rhodd a buddion eraill i dalu treuliau yr aed iddynt yn briodol ac o anghenraid gan y person wrth arfer y swyddogaethau, a

(b) cynnwys fformiwla neu fecanwaith arall ar gyfer addasu un neu fwy o'r elfennau hynny o dro i dro.

12 Ond ni chaiff y telerau talu cydnabyddiaeth ddarparu ar gyfer talu cyflog ychwanegol neu bensiwn.

13 Rhaid i SAC dalu tâl cydnabyddiaeth i'r person fel y darperir ar ei gyfer gan unrhyw delerau ychwanegol o ran talu cydnabyddiaeth y cytunir arnynt, neu o dan y telerau hynny.

14 O ran hyd dynodiad dros dro mewn perthynas ag amgylchiad y cyfeirir ato ym mharagraff 6—

(a) ni chaiff fod yn fwy na 6 mis, ond

(b) caniateir i SAC ei estyn unwaith mewn perthynas â'r amgylchiad hwnnw, gyda chytundeb y Cynulliad Cenedlaethol, am hyd at 6 mis arall.